Cenn@d

IONAWR 3 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 149

Craig Blaenau – cau'r bwlch rhwng yr eglwys a'r gymuned

Capel newydd i Flaenau Ffestiniog a'r fro ydi Craig Blaenau. Rydym yn griw sy'n caru lle rydyn ni'n byw, yn cefnogi'n hieuenctid, yn gwasanaethu'r gymuned ac am wahodd pawb i ddod o hyd i le saff, pwrpas a gobaith drwy ffydd yn Iesu. Fel cymuned capel rydym yn dyheu am weld y bwlch enfawr rhwng yr eglwys a'r gymuned yn cael ei gau, ac yn gweithio'n galed i geisio cau'r bwlch yma. Un argyhoeddiad dwfn wrth ddechrau'r gwaith oedd fod yn rhaid i anghenion yr ardal siapio'r hyn rydyn ni'n ei wneud a bod angen i ysbrydolrwydd yr eglwys ddod o'r pridd y lleolwyd hi ynddi – neu'r Graig, yn achos Blaenau! Mae Craig Blaenau i fod yn gymuned ffydd sydd o'r Blaenau ac er mwyn y Blaenau.

Gweld yr angen

Mae Craig Blaenau wedi bod ar waith yn y gymuned ers dros flwyddyn bellach, a'r angen cyntaf a welsom oedd angen ymysg ein hieuenctid. Pan ydych chi'n byw yn y gymuned, yn gweithio yn yr ysgol uwchradd leol, fel rydw i wedi bod yn ei wneud am y ddwy flynedd ddiwethaf, a thrwy hynny ddod i adnabod y bobl ifanc yma a chlywed eu straeon gwahanol, yna mae'n amhosib i'ch calon beidio â chael ei chyffwrdd. Y flaenoriaeth felly oedd creu lle saff o fwynhad a pherthynas o amgylch pryd o fwyd a gemau. A dyna pam ddechreuwyd CIC (Clwb Ieuenctid Cristnogol) flwyddyn yn ôl yng Nghlwb Rygbi Bro Ffestiniog. Rydym yn gweld 60+ o bobl ifanc (o flynyddoedd 7–11) yn troi i fyny bob wythnos, a thrwy greu lle saff a phleserus iddyn nhw, rydym, gobeithio, yn cyfleu gwerth y bobl ifanc iddyn nhw eu hunain ac yn eu cadw nhw allan o drwbl drwy eu tynnu oddi ar y stryd.

Gweld ffrwyth

Y tymor diwethaf yma, lansiwyd CIC iau i flynyddoedd 4–6 oherwydd roedd cymaint o blant yn ceisio torri i mewn i sesiynau CIC o dan oed! Rydym bellach yn gweld 60+ yn dod i'r sesiynau yma hefyd – sy'n mynd â ni at 120+ o blant a phobl ifanc bob wythnos. Mae ymateb y gymuned i'r gwaith wedi bod mor galonogol hefyd, wrth i rieni rannu am y gwahaniaeth welan nhw yn lles a hyder eu pobl ifanc. Rhannodd un rhaint fod ei mab wedi dod adre o CIC iau, a rownd y bwrdd bwyd wedi rhannu efo'i deulu am y Duw yma sy'n ein caru ac yn gofalu amdanom. Mae Coleg y Bala wedi bod yn ganolog i'r gwaith wrth i sawl cwrs yno weld dros 20 o blant a phobl ifanc y Blaenau yn mynychu ac yn profi o'r Ysbryd Glân. Mae'r criw yna sydd wedi bod i Goleg y Bala bellach yn dod i CIC Alffa, sy'n rhoi cyfle iddyn nhw fynd yn ddyfnach ar eu siwrne ffydd. Ar ddiwedd diwrnod ysgol ar ddydd Llun, rydym yn troi i fyny efo bwyd, diodydd, gemau, ac wedyn yn mynd drwy fideos effeithiol Alffa ieuenctid efo'n gilydd ac yn cael sgyrsiau rownd y bwrdd am gwestiynau mawr bywyd a ffydd. Gweddïwch gyda ni ar i'r hadau yma oll fynd yn ddwfn a dwyn llawer o ffrwyth.

Cyfleu gwerth

Rydym yn dyheu am i 'Craig' fod yn gymuned i bawb ac yn gapel teuluol go iawn. Rhan o hynny yw cynnal digwyddiadau i fendithio'r gymuned a gwahodd teuluoedd i glywed yr efengyl – falle am y tro cyntaf. Y Pasg diwethaf fe wnaethon ni gynnal ein Parti Pasg, diwrnod hwyl i'r teulu cyfan ar gaeau'r clwb rygbi lle roedd cerddoriaeth fyw, *inflatables*, Zorbs, pêl-droed, peintio wynebau, crefft, helfa wyau a llawer iawn mwy o weithgareddau, yn ogystal â bwyd am ddim! Daeth tua 350 o bobl i'r ddigwyddiad, a'r adborth cyffredin gawsom oedd: "Dydi pethau fel yma byth yn digwydd yn y Blaenau!" Roedd hyn yn anogaeth enfawr wrth inni, drwy'r digwyddiad, geisio cyfleu gwerth i'r rhai sy'n teimlo nad oes ganddynt unrhyw werth a bod pawb wedi'u hanghofio a'u gadael ar ôl – a bod cyfle i bawb ddod o hyd i le saff, pwrpas a gobaith yng nghymuned 'Craig'.

Rhannu neges yn nigwyddiad Cwpan CIC ym mis Hydref

Twf y Nadolig hwn

Bnawn Sul, 10 Rhagfyr, fe gynhaliom ein noson 'Carolau yn y Clwb', efo bwyd parti, 'ffynnon siocled', siocled poeth a digonedd o bwdins i bawb eu mwynhau! Trefnwyd crefft a *photobooth* gwisgo i fyny Stori'r Geni i'r plant, ac fe wnaethon ni gynnal gwasanaeth llawn canu, darlleniadau, a neges o obaith am y Duw a ddaeth yn agos atom. Roedd gweld y cynnydd ers y llynedd (tua 15 o'r gymuned y llynedd, a rhwng 80 a 90 eleni) yn hwb enfawr, a llonnwyd ein calonnau wrth weld y bwlch rhwng yr eglwys a'r gymuned yn cael ei gau a chymaint o deuluoedd ifanc ac ieuenctid yn mwynhau eu hunain, gan gynnwys Mali fach ni'n dawnsio i'r gerddoriaeth efo'i ffrindiau o'r cylch meithrin!

Mae'r rhain yn ddyddiau cynnar, ond maen nhw'n ddyddiau calonogol. Mae Duw yn gwneud rhywbeth newydd yma; mae'r neges yn aros yr un fath (iachawdwriaeth) ond rhaid i'r ffordd fod yn un newydd. Gofynnwn i chi ymuno yn y weddi: 'Megis yn y nef, felly yn y Blaenau, bro Ffestiniog, y gogledd a'r ddaear hefyd!'

Joseff Edwards

DS Rydym yn ryddhau llythyr gweddi bob tymor, felly os oes ganddoch ddiddordeb mewn derbyn hwnnw neu am holi ymhellach neu gynnig help, peidiwch ag oedi rhag cysylltu â ni drwy ebost: jos@craigblaenau.com

Edward Parry, Llansannan (1723?–86) Tudalen 2

Myfyrdod ar y Nadolig cyntaf (2) Cyflwyno'r Tangnefedd Tudalen 5

Gwasanaeth ar ddechrau 2024 Tudalen 8

Edward Parry, Llansannan (1723?–86)

I gydnabod tair canrif ers ei eni, fe roddir yma ddetholiad o erthygl a gyhoeddwyd yn y *Cylchgrawn Efengylaidd* i nodi daucanmlwyddiant marw Edward Parry yn 1986 gan y diweddar Goronwy Prys Owen, gyda diolch caredig i'w deulu ac i'r Cylchgrawn am ganiatáu hynny, er cof am Goronwy. Mae Darlith Flynyddol Cymdeithas Emynau Cymru, a draddodwyd gan Dr Owen yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Sir Conwy, 2019: 'Edwards Parry, Bryn Bugad: ei fywyd a'i waith' wedi ei chyhoeddi bellach, ac ar gael yng nghyfrol 68 o *Drafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*.

Saer coed, bardd gwlad ac anterliwtiwr, dyna a gofiem eleni oni bai am wyrth yr efengyl ym mywyd Edward Parry, a'i droi'n Fethodist, yn bregethwr, ac yn emynydd. Mae ansicrwydd gyda golwg ar flwyddyn ei eni, ond digwyddodd hynny yn 1723 yn ôl y ffynonellau arferol, yn y Llys Bychan, Llansannan.

Adeiladu Tan-y-fron

Ac yntau oddeutu pump ar hugain oed, ym mis Hydref 1747, ymbriododdd â Gwen, merch Dafydd Hughes, Plas Pigot, cartrefu yn y Cefn-byr, a dechrau magu'i blant.

Dyma'r adeg y gwrandawodd ar Dafydd William Rhys, y cynghorwr o Lanfynydd, Sir Gaerfyrddin, yn pregethu yn yr Henllys, ger Llanfair Talhaiarn. Teimlai Edward Parry fod y tŷ yn crynu dan ei draed y noson honno, a phenderfynodd lynu with y Methodistiaid tra byddai byw. Gwahoddai bregethwyr teithiol i'w gartref, a thrwy hynny ennyn llid ei feistr tir, a chafodd el droi allan o'i dyddyn. Adeiladodd dŷ newydd iddo'i hun, a'i alw yn 'Tan-y-fron'.

Dechreuodd bregethu yn 1749, ond dryswyd llawer ar ei ysbryd gan yr ymraniad. Collodd ei sêl a'i frwdfrydedd Methodistaidd, rhoes heibio bregethu, a dychwelyd i addoli yn yr eglwys esgobol.

Yn 1761 symudodd y teulu i Fryn Bugad, tyddyn heb fod nepell i fyny'r llethrau o Dan-y-fron. Dyma gyfnod Diwygiad

Dathlu daucamlwyddiant Capel Tan-y-fron yn 1972

Llangeitho, a chyneuodd y dylanwadau grasol dân newydd yn enaid Edward Parry, ac ailddechreuodd bregethu. Ei ddawn oedd arloesi – plannu Methodistiaeth mewn ardaloedd newydd.

Ym mis Medi 1764, ysywaeth, daeth profedigaeth chwerw i'w ran – claddu Gwen, ei wraig, gan ei adael ef yn weddw, a'i blant yn eu harddegau cynnar, yn amddifad o fam. Tua deunaw mis ynghynt rheibiwyd cwmni Methodistiaid yr ardal gan brofedigaeth gyffelyb, pan fu farw Henry Roberts, Arllwyd, a gadael Ann, ei wraig, yn weddw gyda dau neu dri o blant mân. Daeth y profiadau hyn ag Edward ac Ann at ei gilydd, a phriodwyd hwy ar 28 Medi 1765. Bendithiwyd aelwyd Bryn Bugad â phedwar plentyn o'r briodas hon: tair merch ac un mab.

Capel yn yr ardd

Yn 1767 dechreuwyd cyfres o gyfarfodydd eglwysig ym Mryn Bugad, ac o'r seiat hon y cododd yr angen am gapel. Adeiladwyd capel Tan-y-fron yn 1773, yng ngardd y tŷ a gododd Edward Parry iddo'i hun. Hwn oedd capel cyntaf y Methodistiaid yng nghanol Sir Ddinbych, ac ynddo cynhelid cymdeithasfâu a chyfarfodydd misol y Methodistiaid.

Tua deng mlynedd ar ôl adeiladu'r capel ymneilituodd Edward Parry a'i wraig i Dan-y-fron, gan adael y cyfrifoldeb am Fryn Bugad i'w deulu niferus. Gwanychodd ei iechyd, a bu farw o'r dwymyn 16 Medi 1786, yn 64 oed, bedwar diwrnod ar ol arwyddo ei ewyllys olaf, lle mae'n cymynu ei dŷ a'r ardd o'i gwmpas 'unto my beloved brethren that are Members of the Welsh Association', ar yr amod eu bod yn gorffen talu dyled y tŷ ac yn caniatáu i'w 'Dear Beloved wife Ann Parry' fyw ynddo weddill ei dyddiau. Nid rhyfedd y parch a ddangoswyd iddo ddydd ei angladd. Pregethwyd ar yr achlysur gan neb llai na Thomas Charles. Bu farw Ann Parry ym mis Mawrth 1794.

Ei emynau

'Nid oedd efe ond un o'r prydyddion llelaf, er ei fod yn bregethwr buddiol a chymeradwy yn el ddydd.' Dyna farn Morris Davies, Bangor, am Edward Parry, wrth gyflwyno wyth emyn o'i waith yn *Y Traethodydd*, 1874. Serch hynny, fel emynydd yn anad dim y cofiwn amdano heddiw.

Cyhoeddodd ei chwe emyn cyntaf ar ddiwedd 'Galarnad am Farwolaeth Elinor

Cofgolofn er cof am Edward Parry

Roberts, Trefecca, 1774'. Gormodiaith, o bosib, fyddai galw pob un o'r cyfansoddiadau hyn yn emynau. Ond mae'r pedwerydd emyn, 'Am Dduwdod Crist' yn fyfyrdod ar ryfeddod Duwdod Crist, gydag ambell bennill o'r un ar ddeg yn swynol yn ei wrthgyferbyniadau [gweler golygiad yr Athro E. Wyn James, drosodd]. Dair blynedd ar ôl ei farw, sef yn 1789, argraffwyd Ilyfryn bychan 'tros ddyn tlawd a elwir William Ellis'. Mae hwn yn cynnwys pedair ar ddeg o emynau Edward Parry, ynghyd â pheth gwaith William Evans a William Ellis, y Bala. Dyma pryd y cyhoeddwyd gyntaf y ddau bennill adnabyddus sydd bellach yn un emyn, 'Caned nef a daear lawr' [*Caneuon Ffydd*, rhif 531].

Mae dau neu dri o'i emynau yn sicr yn haeddu sylw, ac mae eu darllen yn cynhesu calon ac ysbryd credadun. Buasai adfer eu canu yn gyfrwng effeithiol i foliannu Duw. Bodlonwn ar un enghraifft sy'n adeiladwaith crefftus:

(parhad ar y dudalen nesaf)

Edward Parry, Llansannan (1723?–86)
(parhad o dudalen 7)

Mae fy mhechod mawr ei rym
Yn fy ngwasgu,
Fel na allaf weithiau ddim
Brin anadlu:
Yn euog yma ac euog draw
Yn safn marwolaeth,
O fy Arglwydd, pryd y daw
Iechydwriaeth?

Clywais heddiw newydd da
Fod trugaredd
I bechadur llawn o bla:
Mae'n beth rhyfedd!
Yn ei gorff a'i werthfawr waed
Wedi'i selio
Y mae pardwn imi'n rhad:
Diolch iddo.

Pan fo chwerwa, lyma'r loes,
Mewn gorthrymder,
Fy enaid, rhed at waed y Groes,
Am esmwythder.
Hon yw'r ffynnon sy'n glanhau
Yr aflana:
Yn dragwyddol yn parhau:
Haleliwia!

Dyma'r sylfaen gadarn gref.
Duw tragwyddol!
Mae e'n llanw'r byd a'r nef:
Credwch, bobol!
Byth i'w enw canwn glod
Ymhob gwasgfa:
Amdanom cofiodd cyn ein bod,
Haleliwia!

Arloeswr

Bryn Bugad

Dros ddwy ganrif er pan dawodd Edward Parry, pa fodd mae ei gloriannu? Ar un llaw, mae'n anodd ei osod yn yr un dosbarth â Morgan Rhys ac emynwyr Caio. Ar y llaw arall, rhaid cofio ei fod ef (gyda Siarl Marc, y cynghorwr o Lŷn) yn arloeswr ym maes emynyddiaeth Fethodistaidd gogledd Cymru, genhedlaeth o flaen Hugh Jones, Maesglasau, a Thomas Jones, Dinbych, a dwy genhedlaeth o flaen Pedr Fardd ac Ann Griffiths.

Ond ar gyfrif poblogrwydd yr emyn adnabyddus 'Caned nef a daear lawr', cynhesrwydd ysbrydoledig a chyfeiriadaeth ysgrythurol orfoleddus ei emyn 'Blant afradion, at eich Tad', dwyster ei drawiadau wrth ddisgrifio aberth y groes, unig sail maddeuant pechodau a'r bywyd Cristonogol, mae Edward Parry, Llansannan, yn teilyngu lle anrhydeddus ymhhlith emynwyr Cymru.

Goronwy Prys Owen

Am Dduwdod Crist

O! rhyfedd, rhyfedd, rhyfedd yw
Gweld Duw yn ddyn, a dyn yn Dduw!
Gweld Duw Jehofa yma'n llon,
Yn Faban bach yn sugno bron.

Rhyfeddol gweled Brenin mawr,
Creawdwr, Lluniwr nef a llawr,
Ar freichiau Mair yn wan ei lef,
Ac eto'n dala'r ddae'r a'r nef.

Ar arffed Mair, gwêl Had y Wraig,
A ddaeth i sigo pen y Ddraig,
A Mair yn rhoddi bron o'i bryd
I'r Baban bach sy'n dala'r byd.

Y Baban bach fel mab y saer,
Ac eto'n dala'r nef a'r ddae'r;
Yn wan, yn fach, yn wael, yn dlawd,
Ac eto'n cyfoethogi pawb.

Heb le i roddi'i ben i lawr,
Er hynny'n wir Jehofa mawr;
Dirgelwch yw! Pwy draetha glod
'R Hwn sydd, 'r Hwn fydd, 'r Hwn oedd erio'd.

Edward Parry (1723–86), Llansannan

Mae'r emyn ar y Mesur Hir (M.H.). Awgrymir ei ganu ar y dôn 'Eden (2)' (*Caneuon Ffydd*, 535).

O ailadrodd cwpled agoriadol yr emyn yn gytgan ar ddiwedd pob pennill, fe ellid ei ganu ar y dôn 'Rhyd-y-groes' (*Caneuon Ffydd*, 180).

Gwylnos Heddwch yn cofio am y plant a'r ieuenctid

Nos Iau, 30 Tachwedd, tro Chwilog oedd cynnal yr Wylnos Heddwch wythnosol a drefnir bob nos Iau o fewn ffiniau Gwynedd. Mae'r wylnos hon yn ychwanegol at yr wylnos a gynhelir yng Nghaernarfon bob nos Sul, a hynny i weddïo dros heddwch i'n byd, ac yn fwyaf arbennig dros y sefyllfa argyfyngus yn Gasa ac Israel ar hyn o bryd. Mae'n siŵr bod clywed am y lladd didrugaredd a didostur wedi ein cyffwrdd i gyd, ac yn arbennig o drasig yw'r ffigyrau a glywn am nifer y plant hollol ddiniwed sydd wedi eu lladd.

Nos Iau yn Chwilog, braf oedd cael cwmni Gwenith, sy'n ddisgybl yn Ysgol Gynradd Chwilog, ac Efan, sy'n ddisgybl yn Ysgol Glan y Môr, Pwllheli. Cyflwynodd y ddau eu gweddïau heddwch, gan gofio'n arbennig am yr holl blant sydd wedi eu heffeithio gan y trais diweddar hwn – plant a fu farw neu a gollodd ffrindiau a theulu, yn ogystal â'r holl blant sy'n ffoaduriaid ar hyn o bryd. Heb os, cyfoethogwyd ein hymdrech i geisio heddwch drwy eu cyfraniadau arbennig nhw.

Un funud fach ...

Mae'r Nadolig yn ymwneud â negeseuon: anfon negesuon i'n gilydd ar ffurff carden, anrheg neu lythyr at Siôn Corn. Ac mae negeseuon hefyd yn hanes y Nadolig cyntaf hwnnw ym Methlehem. Y negeswyr ddaeth i ddweud am y baban bach mewn cadachau yn y preseb wrth y bugeiliaid tlawd ar y bryn. Ac roedd y seren hefyd yn neges – i ddangos i bobl ble roedd Iesu.

Mae cyfnod y Nadolig hefyd yn amser i eistedd a hel atgofion. Mae blwyddyn arall newydd ddod i ben, a llawer iawn i edrych yn ôl arno gyda gwên a deigryn. Gallwn lawenhau am lawer o bethau, gan fod y rhan fwyaf ohonom yn byw bywydau llawn a gweddol gyffyrddus. Hefyd, llawenhawn fod yna waith arbennig yn cael ei wneud yn ein heglwysi dros Gymru o hyd. Mae popeth bach sy'n cael ei wneud yn fricsen arall i adeiladu teyrnas Iesu. Ond, wrth gwrs, gyda'r llawenydd mae'n rhaid i ni feddwl am bobl sydd yn dal i ddioddef ar draws ein byd oherwydd newyn, newid hinsawdd a rhyfel. Mae'n dorcalonnus gweld y rhyfel yn y Dwyrain Canol, yng ngwlad yr addewid, yn y man lle y gwnaeth Iesu fyw ei fywyd. Ac ry'n ni, fel Cymry, yn eistedd gartre yn ein cartrefi bach clyd, yn gofyn y cwestiynau: pam yr holl frwydro? pam yr holl gasineb?

'Nôl ym mis Tachwedd bues i'n ffodus i fod yn rhan o'r gynulleidfa yn Neuadd Sector Cynradd, Ysgol Bro Preseli, i wylio perfformiad olaf Anni Cwrt Mawr, sy'n olrain hanes deiseb heddwch merched Cymru o 1923 i 1925. Roedd y perfformiad yn egnïol dros ben, ac yn taro sawl nodyn: llawenydd, tristwch a hefyd adeg i fyfyrio. Y cwestiwn wnaeth fy nharo ac sydd wedi aros yn fy meddwl hyd nawr, wrth i'r actores Elliw Dafydd, fel Anni, ysgrifennu at ei theulu, yw: 'A fydd yna ryfel mewn can mlynedd?'

Wrth iddi lefaru'r ymadrodd yma, teimlais ias a naws yr ystafell yn newid, gyda sawl un yn cymryd anadl ddofn i fewn, a phawb oedd yn eistedd yn y neuadd yn ymwybodol iawn o beth oedd yn digwydd yn y byd, wrth i'r sefyllfa yn Wcráin a Gaza barhau. Mae enwau'r menywod yma, bron pedwar can mil ohonynt, wedi eu gosod mewn cist i'w cadw'n ddiogel. Roedden nhw i gyd wedi llofnodi darn o bapur i ddangos eu hanfodlonrwydd

am sefyllfa'r byd er mwyn ceisio sicrhau na fyddai erchyllterau'r Rhyfel Byd Cyntaf yn cael eu hailadrodd.

Wrth feddwl am bwysigrwydd gwir neges yr Ŵyl, agorwn y gist, cofiwn am y merched dewr dros gyfnod y Nadolig, y merched cyffredin, merched wnaeth anfon neges i'r byd, ac a geisiodd wneud gwahaniaeth, wrth i ninnau ddathlu genedigaeth Tywysog Tangnefedd.

Sian Elin Thomas

Oedfa Garolau Chwiorydd Henaduriaeth Myrddin

Daeth nifer o chwiorydd o gapeli'r Henaduriaeth at ei gilydd yn y Babell, Zion Newydd, ym Mhen-sarn brynhawn Mawrth, 5 Rhagfyr, i ddathlu Gŵyl y Geni. Roedd yn hyfryd gweld y capel wedi'i addurno mor hardd ar gyfer y Nadolig.

Dilynwyd patrwm y Naw Llith a Charol, gyda gwragedd o ddosbarthiadau'r Henaduriaeth yn darllen hanes dyfodiad y Meseia, a chanwyd y carolau adnabyddus yn fywiog a brwdfrydig i seiniau cyfeiliant medrus Mrs Helen Gibbon ar yr organ.

Cafwyd cyfle, yn dilyn y dathlu, i ddymuno bendithion y tymor i'n ffrindiau dros gwpanaid o de a mins peis. Gwerthfawrogir pob arwydd o gymorth a chefnogaeth barhaus a dderbynnir wrth gynnal gwasanaethau Chwiorydd Henaduriaeth Myrddin.

Elinor Wyn Nicholson

Myfyrdod ar y Nadolig cyntaf (2)
Cyflwyno'r Tangnefedd

Tangnefedd Duw: Byddwn yn cloi ein gwasanaethau weithiau â'r geiriau, 'A thangnefedd Duw a fyddo gyda chi', ond beth a olygwn wrth ddweud hynny? Dywedodd yr angylion wedyn ar achlysur geni'r Iesu, 'Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith y rhai sydd wrth ei fodd.' (Luc 2:14) Oedden ni wrth fodd Duw y Nadolig hwn wrth inni dderbyn ei dangnefedd? Ac onid ydym wrth dderbyn bendith o dangnefedd yn derbyn rhodd Duw o'i hunan i ni?

Llun: unsplash.com

Yr Apostol Paul ddywedodd: 'Oherwydd ef yw ein heddwch ni. Gwnaeth y ddau, yr Iddewon a'r Cenhedloedd, yn un, wedi chwalu trwy ei gnawd ei hun y canolfur o elyniaeth oedd yn eu gwahanu.' (Effesiaid 2:14) Ie, 'ef yw ein heddwch ni'. Duw yw ein tangnefedd, ac y mae'r tangnefedd hwnnw gyda ni yn yr Emaniwel hwn, sef Iesu.

Dyna'n gweddi, a ninnau wedi derbyn yn helaeth o dangnefedd amhrisiadwy Duw: y gwireddir geiriau Paul yn ein dyddiau ni ac y gellir chwalu'r canolfur o elyniaeth sy'n parhau o hyd rhwng yr Israeliaid a'r Palestiniaid.

> Clyma ni'n un, O Dduw,
> clyma ni'n un, Dad,
> â chwlwm na ellir ei ddatod:
> clyma ni'n un, O Dduw,
> clyma ni'n un, Dad,
> clyma ni'n un ynot ti

Dyma fydden ni'n ei ganu yng Ngholeg y Bala 'slawer dydd, a bu'r cytgan bach yma a gynhwyswyd yn *Caneuon Ffydd* yn gyfrwng i Gristnogion Cymraeg a di-Gymraeg glosio at ei gilydd ac at Duw mewn sawl epilog ac addoliad.

Tangnefedd Iesu: Y gwir yw mai Iesu yw'r gwir Feseia, Tywysog Tangnefedd, ac mae ei dangnefedd Ef y tu hwnt i ddeall a chrebwyll y byd. Nid heddwch gwleidyddol rhwng cenhedloedd a'i gilydd mohono. Nid jest cytundeb di-drais ydi o – mae'n llawer mwy na hynny. Ond beth tybed ydi o – pa fath o heddwch ydi o?

Yr Apostol Paul sydd eto'n nodi yn ei lythyr at y Rhufeiniaid, 'Am hynny, oherwydd ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae gennym heddwch â Duw trwy ein Harglwydd Iesu Grist' (5:1). Pechod, anghyfiawnder, trais a rhyfel sy'n codi mur rhyngom ni a Duw, ac yn bygwth chwalu unrhyw ymdeimlad o heddwch a thangnefedd yn ein mysg. Dyma darddiad pob anghydfod, anhrefn, eiddigedd, casineb, rhyfel a lladd ar draws y byd heddiw, ac yn llygru calonnau'r rhai sy'n ymhél â phethau fel hyn.

Eto, i ganol hyn y daeth Iesu, 'o'i wir fodd', yn ôl yr hen garol plygain. Dod i gymodi dyn â Duw, dod i adfer ac aileni, ac i roi ail gyfle i bob credadun. Fe gofiwn y geiriau yn Efengyl Mathew, 'Bydd yn esgor ar fab, a gelwi ef Iesu, am mai ef a wareda ei bobl oddi wrth eu pechodau' (1:21). Ai dyma'r math o dangnefedd sydd yn ein calonnau ni, a ninnau wedi derbyn maddeuant? Ai jest tawelwch meddwl ydi o – neu ydi o'n llawer mwy na hynny?

Ein tangnefedd ninnau: Yn sicr ddigon, fe rydd Iesu dangnefedd inni – tangnefedd *gyda* Duw, ond mae hefyd yn rhoi inni dangnefedd Duw. Fe gofiwch y geiriau o lythyr Paul at y Philipiaid: 'A bydd tangnefedd Duw, sydd goruwch pob deall, yn gwarchod dros eich calonnau a'ch meddyliau yng Nghrist Iesu (5:7). Ysgrifennwyd y geiriau hyn pan oedd Paul yn y carchar tua Rhufain. Dychmygwch yr olygfa, ac yntau wedi ei ddal yn gaeth mewn cell oer a thywyll ac yn pwyso'n llwyr ar gariad a thangnefedd Duw i'w gynnal. Llefarodd Paul am y tangnefedd mewnol, ysbryd tawel, digynnwrf a heddwch anghymharol oedd wedi ei wreiddio yn ei ffydd a'i ymddiriedaeth yn Nuw.

Dyma'r union dangnefedd a feddai Crist Iesu yn wyneb y storm a gafwyd ganol nos un noson pan oedd pawb arall wedi eu llenwi gan ofn. Yr un tangnefedd a amlygwyd pan geisiodd yr awdurdodau ei faglu cyn ei groeshoelio. Dyma'r ysbryd a barodd iddo ddweud ar y groes, 'O! Dad, maddau iddynt.' Dyna ichi effaith y tangnefedd dwyfol ar waith.

Does dim posib cael gafael ar hwn drwy ddulliau bydol; ni fydd profiadau'r funud yn y byd yma yn rhoi hwn inni. Oni ddywedodd Iesu wrthym nad yw ei dangnefedd ef megis heddwch y byd. Rhodd ydyw – rhodd i'w derbyn, mewn gwyleidd-dra a diolchgarwch. Dyma ni yn ôl gydag Eseia pan ddywedodd, 'Yr wyt yn cadw mewn heddwch perffaith y sawl sydd â'i feddylfryd arnat, am ei fod yn ymddiried ynot' (26:3). Am ei fod yn ymddiried ynot – dyma'r cymal pwysicaf, megis yr ymddiredodd Joseff yn Nuw, a Mair hithau yr un modd. Roedd y ddau hyn yn gwbl dawel eu hysbryd a'u meddwl wrth iddynt ymddiried y cyfan oll i Dduw. Bydded i hynny fod yn wir yn ein hanes ninnau hefyd. Ymdeimlwch â'r tangnefedd. Cofleidiwch ei gariad a phwyswch ar addewidion dyfodiad y Meseia i'n plith. A theimlwch dangnefedd Duw, yr hwn sydd goruwch pob deall, yn eich gwarchod a'ch cadw'n ffyddlon yn y Flwyddyn Newydd hon.

Blwyddyn Newydd Dda i bawb!

Jim Clarke

Gair Duw ar Waith
gan Denzil I. John

Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 15
Gweddïau Dechrau'r Flwyddyn
Sul, 7 Ionawr

Gweddi
Arglwydd, y gwrandäwr gweddïau, clyw ni yn ein defosiwn syml yn gofyn dy arweiniad ar ddechrau blwyddyn fel hyn. Diolchwn am y deuddeng mis a aeth heibio, yn eu llawenydd a'u tristwch, blwyddyn y gobeithio a'r gofidio, blwyddyn y galaru a'r dathlu. Dyro i ni dy arweiniad wrth i ni agor tudalen lân yn ein dyddiaduron newydd. Boed i ti fod yn amlwg yn ddyddiol, ac y gallwn fyw'r flwyddyn er dy glod. Amen.

Darlleniad Salmau 70 a 71

Cyflwyniad
Cefais fy magu ar aelwyd werinol Gristnogol yn ardal Clunderwen, sir Benfro, ac yn rhan o gymdeithas eglwys Blaenconin, achos y Bedyddwyr yn y fro. Roedd cyrddau gweddi yn cael eu cynnal gydol yr wythnos lawn gyntaf, gyda'r dynion, y gwragedd a'r bobl ifanc yn derbyn cyfrifoldeb dros arwain tair o'r pum noson, a'r ddwy arall yn gyfarfodydd cwbl agored. Yno, mae'n debyg, y cefais y cyfle i flasu gweddïo'n gyhoeddus am y tro cyntaf, a phrofi gwefr y gwneud.

Yn Llyfr y Salmau cawn ymdeimlo â rhin a rhyfeddod defosiwn yr Iddew, ac mae'r delweddau a'r profiadau yn y casgliad yn ddeunydd cyfoethog o ddefosiwn cenedl. Rhyfeddwn at daerineb, gonestrwydd ac ymddiriedaeth y gweddïwyr yn eu Harglwydd. Roeddent yn ymwybodol o'u gwendidau, eu sefyllfaoedd bregus a'u hangen am rywbeth mwy na hwy eu hunain.

Myfyrdod
Roedd festri Blaenconin yn lle cartrefol braf, lle diogel a dedwydd i bawb. Anodd meddwl bellach fod o leiaf bump ar hugain o blith teulu'r achos wedi cyfrannu at ddefosiwn dechrau'r flwyddyn yn ystod yr wythnos yno. Diolch am y dyddiau da. Byddaf yn gofyn yn gyson sawl eglwys sy'n cynnal oedfaon gweddi yn gyson yn ein plith erbyn hyn, a faint o fechgyn a merched yn eu harddegau sy'n clywed eraill yn gweddïo'n gyhoeddus. Yr arfer ym Mlaenconin oedd penlinio gan bwyso ar ein cadeiriau neu wrth y fainc flaen. Pobl yn ymbalfalu am eiriau i fynegi deisyfiad neu air o werthfawrogiad am fendith werthfawr. Ynghanol yr ymbalfalu y daw trysor o gymal didwyll, gan synhwyro bod hynny'n digwydd ym mhresenoldeb Duw ei hun.

Yn yr oes unig ac unigolyddol hon, gyda phobl yn cyfathrebu ag eraill ar ffonau symudol, aethom yn anghyfforddus o weddïo gydag eraill. Diolchaf fod y Tabernacl, Caerdydd, yn parhau i gynnal oedfa ddefosiynol, fel y mae llawer eglwys arall, wrth gwrs. Does 'na ddim rheidrwydd i ni gyfarfod yn y festri; gall y 'ddau neu dri' ddod ynghyd i ddarllen pennod, a rhannu gweddïau syml ond didwyll yn gyson. Os ydych yn defnyddio'r unedau hyn fel grŵp neu fel unigolion, beth am ymroi ac addunedu i weddio'n fwy cyson fel rhan o deulu'r ffydd, ymhle bynnag, pryd bynnag, ond eich bod yn gwneud hynny. Rhywle yn y math yna o gyd-destun y daw sbarc o dduwioldeb a fflam y ffydd a all danio'r enaid a rhoi'r byd ar dân.

Gweddi
Diolch i ti, nefol Dad, am gynnau fflam y ffydd ynom ni, ac am gynnal y fflam â'th fendithion sanctaidd. Gweddïwn o'r newydd y daw adfywiad i'n bywydau ni ac i'r dystiolaeth sydd i ti yn ein gwlad a'n byd. Ysbrydola ni drwy dy Ysbryd i glosio atat ac i rannu ein golau ag eraill. Amen.

Cwestiynau i'w hystyried
1 Yn y ddwy salm, beth, dybiwch chi, oedd cyd-destun eu hawduriaeth?
2 Pa gymalau fyddwch chi'n medru eu perchnogi a'u defnyddio yn eich gweddïau personol?
3 Rhestrwch hyd at bum pwynt gweddi i ganolbwyntio arnynt yn ystod y tri mis nesaf.
4 Pan fyddwch yn gweddïo dros bobl eich ardal, ai gweddi gyffredinol dros 'y llawer' fydd gennych neu weddi sy'n cyfeirio at bobl, mudiadau neu eglwysi penodol?
5 Meddyliwch am eich atgofion o glywed rhywrai'n gweddïo a gyda phwy y carech rannu'r atgofion hynny.

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 7 Ionawr am 7.30yh – Blwyddyn Newydd Dda
Yn rhaglen gyntaf 2024, bydd Nia Roberts yn dymuno Blwyddyn Newydd Dda o sir Drefaldwyn yng nghwmni'r bardd a'r bugail Sam Robinson. Daw'r canu mawl o Gymanfa Gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Maldwyn yng Nghapel Heol China, Llanidloes. A chawn berfformiad gan y triawd swynol Sorela

BBC radio cymru

Oedfa Radio Cymru
Sul, 7 Ionawr, am 12yp
Oedfa dan ofal Gruff Jenkins, Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 7 Ionawr, am 7:30yb a 16:30yp
Rhaglen o ganu cynulleidfaol

Lansio cyfrol newydd o fyfyrdodau ar ferched yn y Beibl



Yn ystod mis Tachwedd cynhaliwyd noson yn y Tabernacl, Caerdydd, i lansio'r gyfrol *Codi'r Llen*, sef addasiad o *Unveiled* gan Clare Hayns. Dyma lyfr rhodd arbennig, yn ein cyflwyno i hanesion 40 o wragedd yn yr Hen Destament, ynghyd â 40 portread celf o bob un ohonynt.

Braf oedd cael cwmni cynifer yn y Tabernacl i rannu'r myfyrdodau hyn am rai o ferched cudd y Beibl. Er bod rhai o ferched yr ysgrythurau Hebraeg yn adnabyddus, prin fod llawer o'r lleill yn cael eu cofio. Hyd yn oed pan maent, nid ydym yn oedi'n ddigon hir i feddwl beth y gallwn ei ddysgu ganddynt. Mae *Codi'r Llen*, sydd wedi'i ysgrifennu gyda didwylledd a hiwmor ac yn cynnwys gwaith celf trawiadol, yn archwilio storïau 40 o ferched a oedd yn rhan o naratif y Beibl yng nghyfnod yr Hen Destament. Gorffennir pob myfyrdod drwy ei gymhwyso'n fyr i fywyd bob dydd, gan roi arweiniad i'w ystyried ymhellach a gweddi. Mae'r gyfrol bellach ar gael yn y siopau am £13.99 neu ar lein o www.gwales.com.

Mae Clare Hayns, awdur y gyfrol wreiddiol, yn Gaplan Coleg yn Eglwys Crist, Rhydychen, a'i mab Micah yw arlunydd y llyfr hwn. Meddai Clare:

'Daeth y llyfr hwn i fod oherwydd anwybodaeth. Ychydig flynyddoedd yn ôl, roeddwn mewn siop yn trefnu i gael fframio lluniau pan wnaeth y perchennog, o weld fy ngholer wen, y gosodiad sy'n gwneud i arweinwyr eglwysig grynu: "Fe fyddwch yn gwybod yr ateb i hyn gan eich bod yn ficer."

'Y cwestiwn a ofynnodd oedd, "Miriam yw enw cariad fy mab, ac rwy'n gwybod ei bod yn y Beibl – ond pwy oedd hi?" Roedd yn gwestiwn da, ond roeddwn yn petruso. Gwyddwn fod a wnelo hi rywbeth â Moses, ond dim llawer mwy. Daeth cwsmer arall i mewn, ac felly cymerais y cyfle i guddio'r tu ôl i'r fframiau er mwyn cael gwglo ei gwestiwn! Fe ddes i oddi yno'n benderfynol o ddarganfod mwy am Miriam a hefyd holl ferched eraill yr ysgrythur. Gosodais her i mi fy hun i ysgrifennu am ferch o'r Beibl bob dydd dros 40 niwrnod y Grawys a'u casglu ynghyd yn gyfrol.

'Drwy godi'r llen ar storïau'r merched rhyfeddol hyn a'u dewisiadau, fy ngobaith yw y gallwn ddysgu mwy amdanynt a hefyd ddod i wybod mwy am gariad helaeth Duw tuag atom ni a phawb arall. Rwyf wedi dysgu cymaint gan y merched hyn ac rwy'n gobeithio y gwnewch fwynhau darllen amdanynt gymaint ag y gwnes i fwynhau ysgrifennu amdanynt.'

Ruth Davies fu'n gyfrifol am yr addasiad Cymraeg, ac eglurodd:

'Bu'r gyfrol yn brosiect gennyf yn ystod fy mlwyddyn fel Llywydd Mudiad Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru 2022–23. Cefais gymorth parod gyda'r cyfieithu gan rai o aelodau'r Tabernacl a ffrindiau: Gwenllian Edwards, Luned Edwards, Zohrah Evans, Anna Gruffudd Fleming, Calan McGreevy, Lisa Tiplady a Bethan Whittall. Diolch i bob un ohonynt am eu gwaith a'u cefnogaeth, a diolch arbennig i Bill Davies am fod yn graig i mi ac yn barod ei gyngor a'i sylwadau bob amser.

'Cyflwynaf y gyfrol hon i'r Parchedig Ddr Rosa Hunt i ddathlu blwyddyn gyntaf ei gweinidogaeth arnom yn y Tabernacl, Caerdydd: am ei chariad, ei hysbrydoliaeth ddiflino ac am fod yn esiampl i ni i gyd i'w hefelychu.'

Dywedodd Rosa Hunt, gweinidog Eglwys y Tabernacl, Caerdydd:

'Pan fyddaf yn cwrdd â merched yn fy eglwys a'm cymuned, rydw i'n gweld unigolion sy'n ddewr, yn onest, yn ffyddlon, yn weithgar, yn greadigol, yn glyfar – ac yn amherffaith, fel fi! A dyna'n union y math o ferched rydw i'n cwrdd â nhw yn nhudalennau'r Ysgrythurau Hebraeg. Diolch i bawb a gyfieithodd y gyfrol feddylgar ac ymarferol hon i'r Gymraeg, i'n hatgoffa bod lle pwysig ac arbennig i ferched yng nghynllun Duw, nid yn unig yn nhudalennau'r Beibl ond hefyd ym mywyd ein heglwysi a'n capeli drwy Gymru heddiw.'

Diolch hefyd i'r awdures brofiadol Naomi Starkey, sy'n ficer ar gylch o eglwysi ym Môn, am ei sylw hithau ar y gyfrol:

'Mae'r gwragedd sy'n camu allan i'n cyfarfod o dudalennau'r llyfr hwn yn cynnwys y rhai sy'n hysbys a'r rhai sydd bron yn anhysbys. Mae rhai o'u straeon yn gorlifo â goleuni a gobaith; mae eraill yn drwm gan boen a thywyllwch. Ond gall pob un ohonynt gysylltu – hyd yn oed yn rhannol – â'n bywydau ninnau. Oherwydd rydym yn darganfod mai yr un Duw rydym ni'n ei geisio a'i foli – y Duw sy'n gweld, sy'n gwrando, sy'n darparu – ac yn caru.'

Aled Davies
Cyhoeddiadau'r Gair

Gwasanaeth ar ddechrau 2024

Arweinydd: Os yw'r Nadolig wedi bod, mae'r Nadolig yn gwawrio yn rhywle arall. Yn y Dwyrain Canol – yn Gasa ac yn Israel – mae eglwysi hynaf y byd yn dathlu ar 6 Ionawr, sef yr Hen Galan, oedd yn cael ei ddathlu cyn dechrau dathlu ein Nadolig ni. Er bod yr hen eglwysi hyn wedi dweud na fyddant yn ddathlu eleni gyda goleuadau lliwgar y tu allan na'r tu mewn i'w heglwysi, fe fyddant yn golau cannwyll. Dyma'r hen, hen olau y maent wedi ei oleuo yn ddi-dor dros y canrifoedd, yn ôl i dystiolaeth y Beibl ei hun.

Rydym ninnau'n goleuo'r gannwyll ar ddechrau ein blwyddyn 'newydd dda i chi'.

Cynnau'r gannwyll

Darllen: Ioan 1:1–5

Arweinydd: Ddydd Iau, 28 Rhagfyr, mae Gwŷl y Diniwed, gŵyl i gofio'r plant a laddwyd gan Herod. Mae'n gefndir allweddol i'r hanes am eni Iesu Crist, ac ni allwn anghofio'r byd y ganwyd Iesu iddo.

Darllen: Mathew 2:16–19

Darllenydd newyddion
Dyma'r newyddion diweddaraf o'r Dwyrain Canol:

Cyhoeddodd UNRWA fod o leia 7,000 o blant dan 15 oed wedi'u lladd yn Gasa a hynny mewn hanner cant o ddyddiau. Mae Human Rights Watch wedi cyhoeddi heddiw hefyd fod o leiaf 200 o staff, meddygon a nyrsys wedi'u lladd yn Ysbyty Arabaidd a Christnogol Al Ahli yn ninas Gasa ers pan fomiwyd yr ysbyty, a bod 500 o bobl oedd yn ceisio lloches tu allan i'r ysbyty hefyd wedi'u lladd. Dywedodd Suhaila Tarazi, cyfarwyddwraig yr ysbyty ers rhai blynyddoedd: 'Marwolaeth sydd fwyaf amlwg yn yr ysbyty heddiw, ond rydym yn parhau i achub bywydau. Mae'r uned famolaeth wedi cau ac mae'r *morgue* yn llawn. Ein hunig obaith yw Duw, a phan fyddwn yn dathlu'r Nadolig ar Ionawr 6ed, fe fyddwn yn cynnau'r gannwyll ac yn canu carol yng nghanol y dioddefaint o'n cwmpas:

Emanŵel, Emanŵel,
ei enw yw Emanŵel,
Duw gyda ni, Duw ynom ni,
ei enw yw Emanŵel.

(*Caneuon Ffydd* 417, pennill 1af yn unig, i'w ganu gan unawdydd, os yw'n bosibl, neu'r gynulleidfa, ond yn ddigyfeiliant)

Tawelwch

Darllen: **Emyn 862 (*Caneuon Ffydd*) fel gweddi**

Darllen: geiriau fersiwn Cymraeg Brigyn o 'Haleliwia' ac yna chwarae'r CD o'r gân.

Darlleniad: Luc 1:76–9

Darllenydd newyddion
Dyma'r newyddion diweddaraf o Gasa:

Heddiw, 23 Hydref, rhyddhawyd y gwystlon cyntaf yn Gasa yn dilyn cytundeb rhwng Hamas ac Israel. Rhyddhawyd dwy oherwydd eu hoed a'u hanghenion meddygol. Yr hynaf oedd Yocheved Lifshitz, 85 oed. Ond mae ei gŵr, Oded, yn parhau'n wystl. Hwy oedd sylfaenwyr cibŵts Nir Oz, a sefydlwyd gyda'r gobaith o greu cymunedau teg a heddychlon â'i gilydd, cymdogion yn gwarchod eu tiroedd rhag rhaib a thrais. Bu'r ddau'n weithgar yn ceisio cynorthwyo Palestinaid oedd ag anghenion meddygol dwys i groesi'r ffin o Gasa i Israel. Redd Yocheved yn rhan o fudiad byd-eang 'Merched yn gweithio dros heddwch'. Cafodd ei beriniadu'n hallt gan Israeliaid oherwydd, wrth iddi droi at y milwr Hamas ddaeth â hi o'r twnnel, iddi dweud 'Shalom' wrtho – 'heddwch i chi, eich teulu a'ch pobl'.

Arweinydd: Beth yw ffordd tangnefedd? Mae popeth yn y Beibl yn ein harwain at ffordd tangnefedd Duw – o'r creu i bresenoldeb Duw ei hun yn Llyfr y Datguddiad. 'Shalom' yw un o allweddeiriau'r Beibl, sef heddwch yn ei ystyr gyfoethocaf: harmoni a chytgord, heddwch a chymod, rhwng y ddynoliaeth a'r cread, rhwng teulu dyn a'i gilydd, rhwng y Creawdwr a'r ddynoliaeth. Dyma'r 'shalom' a ddatguddiwyd ac a fynegwyd yn ei ogoniant ym mherson a bywyd Iesu, Emanwel.

Y Bugail da (Rhif 417, yr ail bennill yn unig – unawdydd neu'r gynulleidfa)

Y Bugail da, y Bugail da,
ei enw yw y Bugail da,
Duw gyda ni, Duw ynom ni,
Ei enw yw y Bugail da.

Tawelwch

Darllen: **Emyn 861 fel gweddi**

Darllen: Eseia 2:3–5

Darllenydd newyddion
Dyma'r newyddion diweddaraf o'r Dwyrain Canol:

Ar 19 Hydref, bomiwyd eglwys hynaf Gasa, sef Eglwys Uniongred Roegaidd Sant Porphyrus. Lladdwyd 16 o bobl – yn ddamweiniol, yn ôl byddin Israel. Mae eglwysi eraill wedi eu bomio a nifer o fosgiau Mwslemaidd, gan gynnwys y mosg mwyaf un yn Gasa. Mae adroddiad arall wedi honni nad eglwys Porphyrus a fomiwyd ond neuadd yr eglwys, lle roedd Mwslemiaid, Israeliaid a Christnogion o'r gymdogaeth yn cyfarfod yn rheolaidd i gynnal ei gilydd yn y bomio. Roeddynt yn credu eu bod yn llochesu mewn lle diogel.

Arweinydd: Eglwys Sant Porphyrus yw un o eglwysi hynaf y byd. Yn ôl traddodiad daeth Phylip y disgybl yma. Mae'n siŵr fod Phylip wedi clywed Iesu yn sôn llawer am Eseia, a hyd yn oed yn dyfynnu'r geiriau a ddarllenwyd ychydig funudau yn ôl. Daeth Porphyrus yn arweinydd ar yr eglwys cyn 390 OC a dywedir mai ef yw awdur y geiriau enwog sydd wedi eu trysori ar draws y canrifoedd: 'Mae cariad Duw yn newid popeth, mae'n sancteiddio bywyd ac yn adfer yr hyn a gollwyd.'

Meseia Duw (Rhif 417, y pennill olaf yn unig – unawdydd neu'r gynulleidfa)

Meseia Duw, Meseia Duw,
ei enw yw Meseia Duw,
Duw gyda ni, Duw ynom ni,
ei enw yw Meseia Duw.

Arweinydd: Fel Cristnogion ac fel yr eglwys Gristnogol fyd-eang, rydym yn rhan o drychineb Israel a Phalesteina, lle mae gwreiddiau ein ffydd a chrud ein cred. Rydym yn tystio heddiw ar ddechrau blwyddyn nad neges Nadolig, boed 2023 neu 2024, sydd gennym i'w chyhoeddi ond neges gyfoes ac oesol, hen a newydd, am Iesu o Nasareth – Emanwel, Goleuni'r Byd, y Bugail da, a Meseia Duw.

Gweddi
Ein Tad, ein Emanwel,
plygwn yn isel, isel o'th flaen,
wrth sylweddoli fod canrifoedd lawer
a chenedlaethau lawer o deulu dyn
yn llithro yn ôl o hyd ac o hyd
i fod yr hyn na ddylem fod,
i wneud yr hyn na ddylem ei wneud,
yn rhan o anhrefn ein hoes.
Nid yw ein gweithredu
yn gyson â'n honiadau a'n datganiadau amdanat
na'n dathliadau Nadoligaidd
i groeswu dy ddyfodiad i'n byd.
Ond diolchwn dy fod,
fel y gwelodd Palesteina a Jerwsalem yn nyddiau Iesu,
yn troi toriad gwawr pob dydd,
yn gynnig cyfle i ailddechrau ein tystiolaeth
i'th Fab. Amen.

Gweddi'r Arglwydd

Emyn 417 – i'w ganu'n gyfan gan yr holl gynulleidfa

Pryderi Llwyd Jones
Cricieth

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru